

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

6/4/2021

Cyfrwng: Zoom

Presennol: Y Cyngorwyr Dewi Jones (Cadeirydd y cyfarfod), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Rhodri Jones, Beryl Hughes Griffiths, Euros Roberts, Branwen Haf

Cyhoedd: Neb yn bresennol.

2213 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, a mynegodd gydymdeimlad yr aelodau gyda Beryl Hughes Griffiths a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2214 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb cyfarfod dros y we ar Fawrth 2il, 2021.

2215 Materion y Clerc:

- i. Adroddiad Bioamrywiaeth: gosodwyd bocsys ar gyfer y dylluan wen a'r dylluan frech yn yr ardal, a disgwylir yn y dyddiau nesaf gosod nifer o focsys ar gyfer gwenoliaid duon mewn amryw o leoliadau yn y pentref.
- ii. Arwyddion wedi derbyn difrod: gyrrwyd lluniau at adran priffyrdd Cyngor Gwynedd.
- iii. Anfonodd Iolo Tegid ein cais am llinellau dwbl wrth stryd Y Prys ymlaen ar gyfer sylw gan adran o NMWTRA ond nid oes ateb swyddogol wedi ein cyrraedd. Derbyniodd y Cyngorydd Alan Jones Evans ymateb eu bod yn amharod i roi llinellau dwbl lle mae'r ffordd yn syth. Mae'n disgwyl cyfarfod safle i weld a ellir gwella gweledd wrth Stryd Dŵr.
- iv. Canghennau angen eu torri wrth Lanycil: roedd y mater hwn ar y rhaglen waith ond mae'r gwaith ffordd wrth yr Eglwys yn Llanycil wedi rhwystro hyn rhag digwydd.
- v. Ymaelodi gyda BRAMM – rhoddwyd mater cymhwyster BRAMM i sylw Is-bwyllgor y Fynwent.
- vi. Dŵr Cymru – derbyniwyd llythyr o werthfawrogiad am ein hymateb i waith a wnaethpwyd yn ddiweddar.
- vii. Bedd Syr Ifan – diolchwyd am y llun o'r gwaith a wnaethpwyd yn ddiweddar.

2216 Adroddiad Cyngor Gwynedd - Dywedodd y Cyngorydd Alan Jones Evans ei fod wedi cael cyfarfod wrth safle'r Bont Newydd. Trafodwyd lleoli'r biniau ailgylchu nes at y Elusendai er mwyn atal sbwriel rhag cael ei chwythu i'r afon; trafodwyd gosod mainc a chreu ardal mwynderau. Cynhaliodd cyfarfod safle wrth loches bws Tŷ'n Ddôl gyda swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri ac Adrian Williams o Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Bydd angen peiriant i archwilio'r tir cyn gellir gwneud cynlluniau. Mae teulu Glanffrwd yn ymwybodol o'r bwriad i symud y wal yn ôl er mwyn creu gofod parcio. Mae gwaith codi sbwriel ochrau

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

ffyrdd a llwybrau cyhoeddus yn cael mwy o sylw gan Gyngor Gwynedd; cadarnhawyd fod llawer o sbwriel yn cael eu lluchio ar hyd y ffyrdd yn y gymuned.

2217 Llwybrau

- i. Garth Bach: Derbyniwyd ymateb gan Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Gwynedd yn dilyn postio copïau o lythron yno. Bydd cyfarfod safle yn cael ei gynnal ar ôl trafod gyda Warden Llyn Tegid.
- ii. Garth Bach: Ymatebodd swyddog Parc Cenedlaethol Eryri gan ddweud ei fod yn edrych mewn i'r posibilrwydd o ddynodi'r ardal yn ardal mynediad agored.
- iii. Llwybr y Cei: Gofynnwyd i'r Clerc drafod y gwaith gyda'r Cadeirydd.

2218 Adroddiadau Is-bwyllgorau

- i. Cynllun Ardal: Mae'r gwaith ar Gartrefi wedi ei orffen a'r drafft casgliadau wedi eu hanfon at y Cynghorwyr. Mae'r gwaith ar Gyflogaeth yn tynnu at ei derfyn a bydd yr is bwyllgor yn cyfarfod (12/4/21) er mwyn llunio casgliadau a chanllaw ar y ffordd ymlaen. Cymerodd Huw Antur ran mewn rhaglen deledu "Croeso i'r Parc" a fydd yn cael ei darlledu yn yr Hydref. Cynhelir noson benodol i'r Cyngor cyfan drafod y Cynllun Ardal yn y dyfodol.
- ii. Cyfleusterau: dywedodd Alwyn Evans Jones ei fod yn parhau mewn trafodaethau gyda'r cwmni drysau. Gofynnwyd i'r Clerc drafod y sefyllfa gyda Karl Jones gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod o'r is-bwyllgor yn ystod yr wythnos yn dechrau 19/4/21.
- iii. Y Fynwent: Diolchodd Alwyn Roberts i'r Cynghorwyr a fu'n clirio'r fynwent cyn Sul y Blodau. Diolchwyd i Alwyn Roberts ac Arwel Lloyd Jones am wirfoddoli i fynd yno i drwsio'r ffens weiren, neu ei thynnu.

2219 Adroddiadau Cynghorwyr:

- i. Y Gaiman – dim adroddiad y tro hwn
- ii. Cyflwr asedau: nid oedd problemau wedi amlygu eu hunain, a dywedodd Alwyn Evans Jones y byddai'n gosod y meinciau yn ôl yn eu lle.
- iii. Biniau halen: mae 4 bin halen yn eiddo i'r Cyngor, sef lloches bws yr ysgol, y toiledau, gwaelod ffordd Maesypany ac wrth loches bws Tŷ'n Ddôl. Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n holi Cyngor Gwynedd a fyddai'n bosib cael bin sbwriel wrth loches yr ysgol. Os na fydd hyn yn bosib, awgrymwyd y gellir symud y bin sydd wrth y gofologofn ar hyn o bryd.

2220 Materion lleol Cynghorwyr:

- i. Cafwyd trafodaeth ar hawl mynediad i gefn rhai tai ym Maesypany, ond mater i'r perchnogion ac Adra yw hyn.
- ii. Mae angen tarmac ar bont Dolhendre a dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n dilyn y mater hwn.

2221 Materion ariannol:

- i. Y sefyllfa ariannol: Diolchwyd am yr wybodaeth am dderbyniadau a thaliadau a chytunwyd gyda'r taliadau a ganlyn:

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

| | |
|--------------------------------------|---------|
| Zoom (Bala'n talu hanner) | £143.88 |
| Cyflog y Clerc (mis) | £173.78 |
| Cyflog SAC a SW. y Fynwent (6 mis) | £405.78 |
| CThEM | £217.00 |
| Viking (Ffeiliau Cofnodion + Bala) | £40.79 |
| Aelodaeth Un Llais Cymru | £111.00 |

- ii. Nid oedd ceisiadau newydd am nawdd (o gyllid 2020-21) wedi dod i law.
- iii. Rhannwyd trwydded Zoom gyda Chyngor Tref Y Bala.

2222 Partneriaeth Penllyn: Adroddodd Huw Antur fod cyfarfod blynyddol Partneriaeth Penllyn a Chwmni Pum Plwy Penllyn yr wythnos nesaf. Bydd y Cwmni yn trafod cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth swyddfeydd o ganlyniad i newid ym mhatrymau gwaith yn dilyn Covid 19. Mae'r gwaith ar y Ganolfan Deulu yn Y Bala yn mynd yn ei flaen.

2223 Ceisiadau Cynllunio: Dim.

2224 Gohebiaeth: Trafodwyd

- i. Gofynion newydd ar Gyngorau a Chlercod; cytunwyd i ychwanegu enw Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wrth lythyr Cyngor Tref Y Bala yn gwrthwynebu lleihau cyfleoedd cyngorau lleol i weithredu, a bod tebygolrwydd fod democratiaeth yn cael ei ganoli.
- ii. Llywodraeth Cymru: rhaid bod yn gallu cyfarfod a rhannu Agenda yn electronig
- iii. Llywodraeth Cymru: Nodwyd derbyn Ymgynghoriad: Pwerau awdurdodau lleol i fasnachu
- iv. Cyngor Gwynedd: Rhaglen waith mis Ebrill. Nodwyd derbyn hwn er nad oes manylion beth ydy'r gwaith a fwriedir. Bydd y Cyngorydd yn tynnu sylw at hyn.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: ZOOM 4/5/21 am 8.00pm

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol o flaen y cyfarfod uchod